

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17: Rhondda Cynon Taf

Mawrth 2014

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17: Rhondda Cynon Taf

Mae UCAC yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae UCAC yn undeb llafur sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol a darlithwyr ym mhob sector addysg yng Nghymru.

Adran 1: Gweledigaeth

Mae'n anffodus fod paragraff cyntaf yr adran hon yn rhoi pwyslais ar y gallu i *siarad* y Gymraeg ar draul y sgiliau ieithyddol eraill ("conversant", "ability to speak"). Cytunwn fod y gallu i siarad yn hollbwysig, ond yng nghyd-destun y system addysg byddem yn gobeithio fod gweledigaeth yr Awdurdod yn ymestyn i gynnwys sgiliau darllen ac ysgrifennu yn ogystal. Hynny yw, dylai'r weledigaeth ei gwneud hi'n glir bod modd i'r system addysg greu unigolion sy'n hyderus ddwyieithog ar draws yr ystod sgiliau.

Yn ogystal, teimlwn y gallai'r adran hon fod llawer yn fwy manwl a phenodol ynghylch targedau'r Cynllun a'r Awdurdod ar gyfer cyfnod y Cynllun. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar sut i lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn gofyn i'r adran hon gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- disgwyliadau clir, yn nhermau targedau twf ac ehangu darpariaeth erbyn 2017
- meini prawf ar gyfer mesur llwyddiant

Ni welwn ddigon o dystiolaeth o'r elfennau hyn yn Adran 1 y Cynllun ar hyn o bryd.

Adran 2

Deilliant 1

1.1 Teimlwn fod y targed yn dangos diffyg uchelgais, a bod y cynnydd yr anelir ato'n fach iawn. Yn ogystal, mi fyddai'n braf petai rhagor o fanylder ynghylch y trafodaethau cychwynnol i ddatblygu rhagor o ddarpariaeth yng ngogledd yr Awdurdod, ac ynghylch y ddarpariaeth yn ôl disgrisiwn o ran cludiant a gynigir i ddysgwyr yr ardal.

1.2 Pa mor ddiweddar, a sut cynhaliwyd y *Childcare Sufficiency Assessment*? Byddai'n fuddiol cael fwy o esboniad o sut bydd dosbarthu llyfryn am Ddewisiadau Ieithyddol Addysg Gynnar yn helpu i gael darlun o alw ymhlith rhieni at y dyfodol - a fydd holiadur yn rhan o'r llyfryn neu'r broses? Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd o ran y ddarpariaeth sydd ar gael - h.y. faint o leoliadau, faint o blant, a faint o leoedd - a faint o ganran o'r garfan gyfan yw'r rhain?

Er bod llawer o weithgaredd cymeradwy wedi'i restru yng ngholofn C, rydym o'r farn bod diffyg targedau mesuradwy.

Deilliant 2

2.1. Unwaith eto, teimlwn fod cynnydd o 0.2% (o 18.8% i 19%) yn annigonol, ac ni sonnir am sut y bydd yr Awdurdod yn ymgyrraedd at y targed - beth fydd y gweithgareddau penodol a fydd yn arwain at gynydd? Rhoddir targed ar gyfer 2015, ond dim byd ymhellach i'r dyfodol na hynny.

2.2. Cymeradwywn y targedau fan hyn – ond eto mae diffyg manylder ynglŷn â'r camau gweithredu fydd yn arwain at unrhyw gynydd.

Deilliannau 3 a 4

3.1. Cymeradwywn y camau gweithredu (e.e. cynyddu capasiti staff colegau addysg bellach i ddarparu cyrsiau dwyieithog) - ond credwn fod angen gosod targedau ar gyfer y gweithgareddau hyn. Hoffem weld mwy o fanylder ynghylch sut bydd yr Awdurdod yn datblygu cyfleoedd ar gyfer dysgwyr sydd eisiau gwneud cynnydd o ran eu sgiliau Cymraeg, a gyda pha bartneriaid y byddant yn cydweithio i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/ddwyieithog.

4.1. Cynyddu dilyniant i 70% - sut bwriedir gwneud hyn? Sonir bod bwriad i fonitro bod ysgolion yn cadw at y Fframwaith Ansawdd; awgrymwn fod angen cefnogaeth ar ysgolion (ac nid monitro'n unig) er mwyn cynnal safonau a monitro ansawdd, yn enwedig pan maent yn cytundebu gyda chontractwyr allanol annibynnol.

Deilliant 5

- 5.1. Nid yw'r Cynllun yn gwbl glir bod yr holl hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus a grybwyllir ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Mi ddylai hynny gael ei warantu ar gyfer staff ysgolion cyfrwng Cymraeg, a hynny yn y Cynllun Strategol.
- 5.4 Mae'r ganran sy'n sefyll TGAU Cymraeg Ail Iaith cwrs llawn yn eithriadol o fach (25.32% yn 2012). Gwyddom fod cynyddu'r ganran hon yn ddibynnol ar wella sgiliau ieithyddol y gweithlu, ond teimlwn fod y targedau ar gyfer 2014 a 2015 yn geidwadol dros ben. Mae gwahaniaeth sylweddol iawn o ran cyrhaeddiad y dysgwyr a safodd y cwrs llawn a chyrhaeddiad y sawl a safodd y cwrs byr; byddai'n fanteisiol i bawb felly petai modd sicrhau bod rhagor o ddysgwyr yn dilyn y cwrs llawn, a hynny mor fuan â phosib.

Rhyfeddwn at ganran uchel y sawl nad ydynt yn sefyll arholiad yn y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4: 13.5%. Er y dywedir bod bwriad i leihau'r ganran hon, ni osodir targed ar gyfer hynny. Mae'n faes ble mae gwir angen cael targed mesuradwy, a strategaeth o ran camau gweithredu i wireddu'r targed hwnnw.

Deilliant 7

- 7.1 Fel uchod, hoffem gael sicrwydd yng ngeiriad y Cynllun fod yr hyfforddiant proffesiynol a grybwyllir ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 7.3 Unwaith eto, mae llawer o waith da wedi'i amlinellu, ond mai prinder targedau dybryd yn yr adran hon. Er enghraifft, pan sonnir am wneud yn fawr o gyfleoedd i anfon staff ysgolion ar y Cynllun Sabothol - faint o athrawon a chymorthyddion y mae'r Awdurdod yn anelu ato? A phan sonnir am hyfforddiant i gefnogi athrawon newydd gymhwyso ac athrawon sy'n gwneud Datblygiad Proffesiynol Cynnar, beth yn union yw diffiniad "cynyddu'n sylweddol" y niferoedd sy'n mynychu cyrsiau? Gwerthfawrogwn y ffigur o 10% fel y targed ar gyfer cynyddu niferoedd y cymorthyddion sy'n derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg - anogwn yr Awdurdod i bennu targedau penodol yn yr un modd ar gyfer grwpiau eraill o staff, a mathau eraill o hyfforddiant.

Yn gyffredinol

- Teimlwn nad oes digon o dargedau penodol yn y Cynllun drafft; mae llawer o'r hyn sydd yng ngholofn C yn disgrifio gweithgaredd, ond nid yw'n gosod nod penodol, mesuradwy yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

[facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) twitter.com/AthrawonCymru

www.athrawon.com